# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**EUR(3)-08-08 : Papur 3 Atodiad : 9 Hydref 2008**

## Adroddiad drafft – Ymchwiliad y pwyllgor i Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin

### 1. Cefndir

Ar 20 Mai, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion i ddiwygio sut y caiff y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ei roi ar waith yn y cyfnod rhwng 2009 a 2013, a hynny fel rhan o Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin[1]. Nod yr Archwiliad Iechyd yw edrych ar lwyddiant y diwygiadau[2] a wnaed i'r PAC yn 2003, a hynny gan ystyried cyflwr y farchnad a'r heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig Ewrop a'r sector amaethyddol. At hynny, bwriedir argymell mân newidiadau er mwyn ymateb i'r amodau newydd hyn ac adeiladu ar y profiadau a gafwyd ers 2003, yn enwedig o ran symleiddio pethau.

Fel rhan o'r broses hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynd ati i holi barn.

Yn eu cyfarfod ar 17 Ebrill 2008, nododd Aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol eu bod yn awyddus i gynnal ymchwiliad byr i Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Nod yr ymchwiliad fyddai:

- Asesu effaith bosibl cynigion y Comisiwn ar amaethyddiaeth a rheoli tir yng Nghymru;
- Canfod barn rhanddeiliaid am y cynigion;
- Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddynt gyd-drafod â gweinyddiaethau'r DU ac aelod-wladwriaethau eraill.

Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

*19 Mehefin 2008*

- Dr Klaus Dieter Borchardt – Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, y Comisiwn Ewropeaidd
- Jeff Davies a Michelle Aitchison – Cyswllt Amgylchedd Cymru

*17 Gorffennaf 2008*

- Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig

[1] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Health Check of the Common Agricultural Policy* 20 Mai 2008
[2] Roedd diwygiadau 2003 yn allweddol wrth gael gwared ar y cysylltiad rhwng cynhyrchu a thaliadau drwy gyflwyno'r Cynllun Taliad Sengl. Cafodd datblygu gwledig ei gryfhau hefyd.

*25 Medi 2008*

- Rod Williams a Brian Pawson – Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Gareth Vaughan a Dr Nick Fenwick – Undeb Amaethwyr Cymru
- Dai Davies a Mary James – NFU Cymru

## 2. Archwiliad Iechyd y PAC a diwygio'r PAC yn y dyfodol

Pwysleisiodd Dr Klaus Dieter Borchardt a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ill dau nad yw'r Archwiliad Iechyd yn adolygiad cyflawn o'r PAC.

Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrth y pwyllgor mai diben yr Archwiliad Iechyd oedd gwneud mân addasiadau i'r PAC yn hytrach na diwygio'r polisi'n sylfaenol. Serch hynny, collwyd cyfle i ddatblygu PAC a fyddai'n golygu bod derbyn arian cyhoeddus yn gysylltiedig â sicrhau manteision i'r cyhoedd a'r amgylchedd.

O ran dyfodol y PAC (o 2014 ymlaen), pwysleisiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyswllt Amgylchedd Cymru fod angen PAC sy'n sicrhau mwy o gydlynu rhwng amaethyddiaeth, rheoli tir cynaliadwy a'r heriau amgylcheddol y mae Cymru a'r UE yn eu hwynebu. Teimlai'r ddau gorff y dylai'r PAC wobrwyo rheoli tir cynaliadwy sy'n arwain at fuddion cyhoeddus. Yn y dyfodol, hoffai'r sefydliadau hyn weld y taliadau'n arwain at gyfran uwch o fuddion cyhoeddus.

> Mae gweledigaeth y Cyngor Cefn Gwlad yn ymwneud â newid sylfaenol o ran pwyslais, gan wneud yn siŵr fod y PAC yn cael ei newid i fod yn bolisi sy'n gallu cefnogi amrediad eang o fuddion cyhoeddus megis awyr a dŵr glân, priddoedd iach, bioamrywiaeth, tirweddau diwylliannol a mynediad cyhoeddus.

Ar ôl diwygio'r PAC yn sylweddol yn 2003, roedd NFU Cymru o'r farn y dylid defnyddio'r Archwiliad Iechyd i newid manylion yn unig o ran cyfeiriad y PAC yn y dyfodol. Teimlai'r ddwy undeb amaethwyr fod angen cyfnod o sefydlogrwydd ar y diwydiant, a mynegwyd pryderon ynghylch cyflwyno newidiadau mwy radical cyn 2013.

### Diogelwch bwyd

Cytunodd sawl tyst y dylai cynhyrchu bwyd barhau i fod yn rhan o'r PAC. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru o'r farn nad oedd diogelwch bwyd yn ddigon o flaenoriaeth yng nghynigion yr Archwiliad Iechyd.

Er bod yr UE wedi dechrau symud tuag at ystwytho'r polisi o ran cynhyrchu bwyd, roedd undebau'r ffermwyr yn pryderu bod yr UE yn amharod i gyflwyno camau a fyddai'n galluogi cynhyrchwyr i ymateb i'r farchnad. Roedd yr undebau'n dadlau nad oedd digon wedi'i wneud i atal siopau rhag gostwng prisiau. O ganlyniad, roeddent yn credu bod angen ffynhonnell refeniw i gefnogi'r diwydiant amaethyddol, a chan nad oedd y farchnad yn gallu darparu'r ffynhonnell hon, roedd yn hanfodol bod y PAC yn gwneud hynny.

Yn ogystal â manteision amgylcheddol, awgrymodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y dylai cynhyrchu bwyd fod yn fudd cyhoeddus yn y PAC yn y dyfodol. Dadleuodd NFU Cymru y dylid ystyried bwyd yn fudd cyhoeddus gan fod cynhyrchu bwyd wedi dylanwadu cymaint ar ein tirwedd.

Argymhelliad drafft 1:

Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r egwyddor mai bwriad Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin yw gwneud mân newidiadau i ddiwygiadau 2003, ac mae'n edrych ymlaen at gyfrannu at y trafodaethau ehangach ar hynny. I'r diben hwn, mae'n cefnogi'r farn na ddylid trafod cynigion sy'n effeithio'n sylweddol ar ddiwygiadau 2003 tan y daw'n amser i adolygu'r PAC ar gyfer y cyfnod ar ôl 2013.

Argymhelliad drafft 2:

Mae'r pwyllgor o'r farn y dylid cydnabod y manteision sy'n deillio o amaethyddiaeth o ran stiwardiaeth amgylcheddol a chynhyrchu bwyd. Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r farn bod diogelwch bwyd yn fater o bwys cynyddol ar agenda'r UE, ac mae'n annog y Gweinidog i sicrhau y rhoddir cydnabyddiaeth i gyfraniad pwysig amaethyddiaeth wrth ddarparu'r budd cyhoeddus hwn.

## 3. Ymateb i gynigion y Comisiwn

### 3.1 Y Cynllun Taliad Sengl

*Taliadau hanesyddol ynteu daliadau ar sail ardal*

Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi nodi drwy gydol y broses hon ei bod yn bwriadu cadw system y taliadau hanesyddol yng Nghymru. Ar lefel ranbarthol, mae'r Gweinidog yn credu ei bod yn bwysig bod Cymru'n cadw'r hawl i wneud penderfyniadau ynghylch parhau i wneud taliadau hanesyddol neu beidio.

Dyfynnodd NFU Cymru ffigurau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n dangos mai £23,300 yw cyfartaledd incwm ffermydd Cymru, tra mai £24,400 yw cyfartaledd y Taliad Sengl. Heb y Taliad Sengl, ni fyddai modd cynnal y ffermydd hyn yn economaidd.

Credai rhai tystion y byddai'n dod yn fwyfwy anodd cyfiawnhau talu ffermwyr yn ôl lefelau cynhyrchu hanesyddol dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig gan fod y Cynllun Taliad Sengl yng Nghymru wedi'i ddatgysylltu (oddi wrth gynhyrchu bwyd) ers diwygiadau 2003.

Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn pryderu nad yw'r arian sy'n cael ei dalu i ffermwyr o dan system bresennol y Cynllun Taliad Sengl yn cael ei roi i'r rheini sy'n darparu buddion cyhoeddus. Roeddent yn dadlau bod y system yn gwobrwyo ffermio dwys rhwng 2000 a 2002, ac nad yw ffermwyr sy'n ffermio'n llai dwys ac yn sicrhau mwy o fuddion cyhoeddus yn cael cymaint o arian drwy'r Cynllun Taliad Sengl.

Byddai'r sefydliadau hyn o blaid taliadau ar sail ardal, sy'n ffordd decach o rannu arian.

> Mae’r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi’r argymhelliad sy'n caniatáu cymhwyso modelau’r Cynllun er mwyn rhoi cyfraddau mwy safonol ar gyfer pob hawl.
> […]
> Mae'r Cyngor Cefn Gwlad o’r farn y byddai amaethyddiaeth Cymru a’r amgylchedd yn manteisio yn yr hirdymor ar system lle mae'r holl daliadau cymhorthdal yn gymesur i lefel y budd cyhoeddus a gynhyrchir.

Yn ôl NFU Cymru, yn aml mae angen i ffermydd bychain ffermio’n fwy dwys er mwyn cynnal eu hunain, ac felly byddai taliad ar sail ardal yn niweidiol i’r ffermydd hynny.

Mynegodd Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru bryder am daliadau ar sail ardal, gyda’r ddwy undeb yn esbonio y byddai system o’r fath yn ailddosbarthu cyllid, ac y byddai hyn o bosibl yn cael effaith niweidiol ar ffermydd llai neu ffermydd teuluol. Yn ôl NFU Cymru, ni fyddai unrhyw sail wrthrychol dros gael system o’r fath.

Dadleuodd NFU Cymru fod cynhyrchu bwyd wedi newid yn llwyr dros y blynyddoedd diwethaf, a’i bod yn rhy gynnar i benderfynu ar unrhyw strwythur ar gyfer y cyfnod ar ôl 2014. Mae’n credu y dylid aros am yr adolygiad o gyllideb yr Undeb Ewropeaidd yn 2009 cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pendant.

*Trefniadau pontio*

Ni wnaeth Cyswllt Amgylchedd Cymru argymell system benodol ar sail ardal. Yn hytrach, mae’n galw am werthuso gwahanol bosibiliadau cyn disodli’r model hanesyddol â system o’r fath. Ni ddywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru pryd y dylai hyn ddigwydd.

Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru na fyddai am weld unrhyw newidiadau’n cael eu cyflwyno fel rhan o Archwiliad Iechyd y PAC, ond y byddai am weld model pontio’n cael ei gyflwyno ar ôl 2013, a hwnnw’n seiliedig ar system sy’n cefnogi cynhyrchu bwyd yn ogystal â manteision amgylcheddol. Dylid cynnal gwerthusiad er mwyn canfod y model mwyaf addas. Galwodd y Cyngor am wneud defnydd mwy cydlynol o’r Cynllun Taliad Sengl a fyddai’n cyflawni’r nod sylfaenol o sicrhau buddion cyhoeddus. Serch hynny, byddai angen i’r cyfnod pontio ymestyn dros nifer o flynyddoedd.

Os bydd taliadau ar sail ardal yn cael eu cyflwyno, galwodd y ddwy undeb hefyd am gyfnod pontio hir. Cyfeiriodd Undeb Amaethwyr Cymru at yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr, sy’n dangos bod ffermydd llai ar eu colled. Mae’r Undeb o’r farn y dylai unrhyw system bontio fod yn hyblyg er mwyn gwneud iawn am unrhyw anghydbwysedd a sicrhau nad yw ffermydd mawr, llai cynhyrchiol ar yr ucheldir yn elwa ar draul ffermydd bychain, cynhyrchiol.

Argymhelliad drafft 3:

Mae’r pwyllgor yn nodi bod gwahaniaeth barn yng Nghymru ynghylch yr angen i newid y model hanesyddol o daliadau o dan y Cynllun Taliad Sengl yn y tymor hir. Mae’r pwyllgor yn cefnogi bwriad y Gweinidog i gadw taliadau hanesyddol tan 2013 ac mae’n cytuno bod angen i Gymru gadw’r pŵer i wneud y penderfyniad hwn.

Mae’r pwyllgor yn argymell i’r Gweinidog y dylid gwneud rhagor o waith yn ystod 2009-2013 er mwyn edrych ar y model/system orau i Gymru, gan gynnwys posibiliadau ar gyfer model pontio ar ôl 2013.

### 3.2 Trawsgydymffurfio a diddymu neilltir

O ran diddymu neilltir, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'n well ganddi ddefnyddio gweithgareddau o dan Golofn 2 i lenwi'r bwlch yn sgil diddymu neilltir, yn hytrach na cheisio cyflwyno gofynion statudol newydd o fewn y Cynllun Taliad Sengl.

Croesawodd Undeb Amaethwyr Cymru y bwriad i ddiddymu neilltir, a dywedodd y byddai parhau â'r system yn amharu ar allu'r sector tir âr i fodloni anghenion cynyddol y farchnad ac elwa ar brisiau marchnad uwch drwy'r byd. Er mai bychan yw'r sector tir âr yng Nghymru, awgrymodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, o safbwynt bioamrywiaeth, fod ffyrdd creadigol o greu ardaloedd ar ffermydd tir âr a allai ddisodli neilltir.

Roedd y Gweinidog yn pryderu y gallai mwy o ofynion o ran trawsgydymffurfio arwain at ragor o fiwrocratiaeth a phrofion ar ffermydd. Pwysleisiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru fod mwy i drawsgydymffurfio na dim ond materion amgylcheddol, ond o'r safbwynt hwnnw, nod y system yw sicrhau nad achosir difrod. Trawsgydymffurfio yw'r lefel isaf a dderbynnir, ac anogir ffermwyr i wneud mwy drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Credai NFU Cymru y byddai gofynion ychwanegol o ran trawsgydymffurfio yn arwain at system gymhlethach fyth.

Teimlai undebau'r ffermwyr fod y Gofynion Rheoli Statudol o dan y system bresennol yn sicrhau bod ffermwyr yn cyrraedd y safonau sydd wedi'u rheoleiddio – o ran lles anifeiliaid a safonau ansawdd, er enghraifft. Roeddent yn credu bod y rhain yn arwain at gostau ychwanegol i'r diwydiant, ac y dylai ffermwyr gael budd o hynny mewn rhyw ffordd. Ni chaiff y Taliad Sengl ei roi os na chyrhaeddir y safonau trawsgydymffurfio, ac felly ni fydd y ffermwyr hynny yn elwa.

Ar y llaw arall, pwysleisiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyswllt Amgylchedd Cymru fod angen i drawsgydymffurfio olygu bod targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cael eu cyrraedd. Mae sylwadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn amlygu nifer o dargedau y gellid eu cyrraedd drwy gyflwyno gofynion newydd ar gyfer trawsgydymffurfio. Gallai'r rhain gynnwys targedau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a thargedau'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru. Mae'r cyflwyniad ysgrifenedig yn nodi:

> Mae'r Cyngor yn cefnogi'r argymhelliad i ychwanegu lleiniau clustogi ar hyd cyrsiau dŵr.

Argymhelliad drafft 4:

Mae'r pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog groesawu'r bwriad i ddiddymu neilltir ond mae'n galw am sicrwydd gan Lywodraeth y Cynulliad y bydd y manteision amgylcheddol o wneud hyn yn cael eu cynnal drwy Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Argymhelliad drafft 5:

Mae'r pwyllgor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y baich biwrocrataidd a'r costau sy'n

deillio o drawsgydymffurfio. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn argymell y dylid cefnogi camau a fydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau Ewropeaidd presennol.

### 3.5 Modiwleiddio

Mae Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru yn anghytuno â'r cynnig i gyfyngu ar daliadau i ffermydd mawr. Maent yn dadlau bod tuedd i fwy nag un teulu redeg ffermydd mawr yng Nghymru, ac y bydd cyfyngu ar eu taliadau'n gorfodi'r ffermydd hyn i rannu'n ffermydd llai. Mae'n annhebygol y bydd y cynnig hwn yn arwain at arbedion sylweddol yng Nghymru, a byddant yn golygu rhagor o gostau i ffermydd mawr.

Nid yw Cyswllt Amgylchedd Cymru o blaid capio taliadau i ffermydd mawr drwy fodiwleiddio graddol, ac nid yw'n credu bod maint fferm yn berthnasol wrth benderfynu ar faint o gymorth y dylai'r fferm honno ei gael. Mae'n credu y dylai'r cymorth hwn fod yn seiliedig ar y buddion cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan y fferm.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn credu mai ychydig yn unig o fanteision a fyddai'n dod yn sgil y cynnydd arfaethedig mewn modiwleiddio gorfodol. Mae'r Undeb hefyd yn credu y dylai'r ffermydd sy'n derbyn taliadau llai o ganlyniad i fodiwleiddio gael hawl awtomatig i'r arian hwn. Mynegwyd pryderon fod rhai gweithgareddau a ariennir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (Echelau 3 a 4) drwy fodiwleiddio yn llenwi'r bwlch pan fydd diffyg cyllid domestig.

Roedd NFU Cymru yn awyddus i bwysleisio bod angen sail mwy gwrthrychol a theg dros ddyrannu arian ar gyfer Colofn 2 yn ystod rownd nesaf y gyllideb.

Roedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chyswllt Amgylchedd Cymru ill dau o blaid egwyddor modiwleiddio gorfodol. Yn ôl Cyswllt Amgylchedd Cymru:

> A gradual increase in modulation sets the right course for a future when public spend is directly linked to delivery of public benefits.

Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor y byddai cyflwyno modiwleiddio gorfodol yn lle modiwleiddio gwirfoddol yn achosi rhai problemau o ran y gofyniad i ganfod arian cyfatebol ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013. Dywedodd y Gweinidog:

> One of the issues that we are discussing, within the UK, and with the UK influencing the European position, is that the Compulsory Modulation will bring additional funding to a number of RDPs in Europe, but will not bring significant additional funding to our RDP.

Lle mae modiwleiddio gwirfoddol yn berthnasol ar hyn o bryd, roedd y tystion yn awyddus i bwysleisio'r diffyg eglurder ynghylch sut y bydd rhagor o fodiwleiddio gorfodol yn effeithio ar y DU a Chymru. Dywedodd y tystion ei bod yn hanfodol sicrhau nad yw'r gwledydd sy'n defnyddio modiwleiddio gwirfoddol ar hyn o bryd yn cael llai o gyllid drwy gyflwyno rhagor o fodiwleiddio gorfodol (sef newidiadau sydd â'r nod o ddarparu rhagor o arian ar gyfer Colofn 2) na'r cyllid sydd ar gael o dan y system bresennol. Roedd hyn yn arbennig o wir gan fod angen cydariannu cenedlaethol er

mwyn rhoi modiwleiddio gorfodol ar waith. Nid oes angen hynny ar gyfer yr arian a ddaw yn sgil modiwleiddio gwirfoddol.

Roedd y tystion hefyd yn awyddus i bwysleisio bod angen cadw'r holl dderbyniadau modiwleiddio gorfodol yn y wlad y daethant ohoni:

> Mae cefnogaeth y Cyngor i gynnydd yn y gyfradd modiwleiddio gorfodol yn amodol ar agweddau eraill ar argymhellion y Comisiwn, yn enwedig cadw'r holl dderbyniadau modiwleiddio gorfodol newydd yn y wlad o'r lle y daethant. Yn ogystal, rhaid i'r cyfnewid arfaethedig rhwng modiwleiddio gorfodol cynyddol a lleihad cyfatebol mewn modiwleiddio gwirfoddol ddigwydd yn y fath modd nad oes unrhyw golled net o adnoddau ariannol yng Nghymru.

Argymhelliad drafft 6:

Mae'r pwyllgor yn argymell na ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi'r cynnig i gyflwyno modiwleiddio graddol fel modd o gyfyngu ar y taliadau i ffermydd mawr.

Argymhelliad drafft 7:

Mae'r pwyllgor yn annog y Gweinidog i gael eglurhad ar unwaith o oblygiadau'r newidiadau mewn modiwleiddio gorfodol wrth ddefnyddio modiwleiddio gwirfoddol yng Nghymru.

Argymhelliad drafft 8:

Mae'r pwyllgor yn annog Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau na ddylai unrhyw newidiadau i'r system modiwleiddio gorfodol arwain at leihau'r Taliadau Sengl nac at gosbau ariannol na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa bresennol wedi parhau tan 2013.

### 3.6 Y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Agenda Her

Mae cyflwyniad ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y meysydd sy'n rhan o'r 'agenda her', sef newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a rheoli dŵr. Fodd bynnag, yn ôl yr Undeb, pe bai'r Comisiwn wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu yn y meysydd hyn, byddai'n gwneud darpariaethau yn y gyllideb ar gyfer hynny, yn hytrach na chymryd arian o daliadau Colofn 1 drwy fodiwleiddio.

Pwysleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru gyfraniad y cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n cael eu hariannu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig wrth ymateb i heriau megis y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth. Fodd bynnag, roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn awyddus i weld cyfres gryfach o gynlluniau amaeth-amgylcheddol, a'r rheini wedi'u hariannu'n well, a fyddai'n ymateb i'r 'agenda her'. Roedd hefyd am weld cynllun haen uwch a fyddai'n golygu bod modd gwneud gwaith mewn dalgylchoedd ac ar dirweddau, gan gynnwys gwaith ar y cyd megis rheoli dŵr a gwelliannau i ucheldiroedd a thir comin er lles bioamrywiaeth.

Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y byddai'n rhoi blaenoriaeth o dan yr 'agenda her' i gamau sy'n integreiddio materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a rheoli dŵr.

Argymhelliad drafft 9:

Mae'r pwyllgor yn cytuno bod yn rhaid rhoi sylw ar frys i'r heriau sydd yng nghynigion y Comisiwn, sef newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr a bioamrywiaeth. Mae'n galw ar y Gweinidog i ddefnyddio unrhyw arian ychwanegol a fyddai ar gael yng nghyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig mewn ffordd integredig.

Mae'r pwyllgor yn argymell y dylid gwneud darpariaethau priodol yng nghyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 2013 er mwyn ymateb i'r heriau hyn, gan sicrhau diogelwch bwyd ar yr un pryd.

### 3.7 Erthygl 68 (Erthygl 69 gynt) –Amlenni Cenedlaethol

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn credu bod potensial i ddefnyddio'r Amlenni Cenedlaethol er mwyn i daliadau dargedu buddion cyhoeddus penodol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn credu mai dyma'r adeg iawn i gyflwyno system o'r fath yng Nghymru. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai rhai aelod-wladwriaethau penodol ddefnyddio erthygl 68 yn sail i gamau rheoli risg sy'n annog cynhyrchu ar dir na ddylid ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu cnydau.

O ran cynlluniau rheoli risg, roedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn pryderu ynghylch y dull sy'n cael ei gynnig gan nifer o aelod-wladwriaethau i ariannu camau rheoli risg (megis cynlluniau yswiriant cnydau a ariennir gan y wladwriaeth). Awgrymodd y Cyngor ddull gwahanol o ariannu risg drwy'r PAC, gan ddefnyddio'r PAC i leihau'r risgiau i'r gymdeithas gyfan. Rhoddwyd yr enghraifft a ganlyn:

> […] Gall mesurau rheoli tir sy'n berthynol i adfer mawndir yr ucheldir a gorlifdir naturiol helpu i leihau'r risg o lifogydd mewn ardaloedd trefol. Ar yr un pryd, gallant gynnig manteision eraill o ran gwell bioamrywiaeth a llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Nid yw Undeb Amaethwyr Cymru o blaid yr Amlenni Cenedlaethol ar hyn o bryd, ac mae'n credu y gallent roi rhagor o faich ariannol ar ffermwyr yn ychwanegol at fodiwleiddio. Fodd bynnag, mae'r Undeb yn galw am hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r system hon yn y dyfodol – os bydd gostyngiad yn niferoedd da byw yn cael effaith ar fàs critigol, er enghraifft.

Nid yw NFU Cymru o blaid yr Amlenni Cenedlaethol, gan eu bod yn debyg mewn sawl ffordd i fodiwleiddio ac yn anghyson ag egwyddor datgysylltu cymorth oddi wrth gynhyrchu.

Argymhelliad drafft 10:

Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog rybuddio ynghylch y newidiadau arfaethedig i Erthygl 69, a chwestiynu a fyddai cam o'r fath yn fanteisiol i Gymru yn y sefyllfa bresennol.

### 3.8 Cwotâu llaeth

Mae'r Gweinidog o blaid y broses arfaethedig o gael gwared ar gwotâu yn raddol:

> It is an opportunity for dairy farmers to connect more strongly with the market, and I think that, on the whole, this is to be welcomed

Roedd NFU Cymru yn cytuno ac yn croesawu'r broses raddol, ond roedd yn pryderu y byddai unrhyw ansefydlogrwydd yn y farchnad yn arwain at adolygiad o'r broses bontio.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn gwrthwynebu cael gwared ar gwotâu, ac mae'n credu y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar gynhyrchwyr llai ac ar eu gallu i gystadlu yn y farchnad:

> The increase, and ultimate abolition of quota, will also result in the devaluation and, ultimately, loss of assets held by farms in the form of quota, which is likely to have significant consequences, particularly for tenant farmers.

Argymhelliad drafft 11:

Mae'r pwyllgor yn cefnogi barn y Gweinidog bod angen cael gwared ar gwotâu llaeth, ac mae'n cefnogi'r broses raddol sydd wedi'i hargymell ar gyfer gwneud hyn.